


# Clefyd y llengfilwyr

Canllaw cryno i ddeiliaid dyletswydd



Mae hwn yn fersiwn i'r  
we o daflen INDG458, a  
gyhoeddwyd 04/12

## Ar gyfer pwy mae'r daflen hon?

Mae'r daflen hon wedi ei hanelu at gyflogwyr a phobl sy'n rheoli eiddo, e.e. landlordiaid, ble defnyddir systemau dŵr synthetig allai fod yn ffynhonnell ar gyfer twf bacteria clefyd y llengfilwyr. Bydd yn eich helpu i ddeall y risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â chlefyd y llengfilwyr. Mae *Legionnaires' disease: The control of legionella bacteria in water systems*<sup>1</sup> yn darparu rhagor o fanylion ynglŷn â sut i reoli'r risgiau yn eich system.

## Beth yw Clefyd y llengfilwyr?

Legionellosis yw'r enw cyfunol a roddir i'r salwch tebyg i niwmonia a achosir gan facteria clefyd y llengfilwyr. Mae hyn yn cynnwys y clefyd y llengfilwyr mwyaf difrifol, ynghyd â chyflyrau tebyg ond llai difrifol twymyn Pontiac a thwymyn Lochgoilhead. Mae clefyd y llengfilwyr yn ffurf all fod yn farwol o niwmonia ac mae pawb yn agored i heintiad. Fodd bynnag, mae mwy o risg i rai nag eraill, yn cynnwys:

- pobl dros 45 oed;
- ysmygwyr ac yfwyr trwm;
- pobl yn dioddef o glefydau cronig resbiradol neu arenau; ac
- unrhyw un gyda nam ar eu system imiwedd.

## Ble fydddech yn dod o hyd i facteria clefyd y llengfilwyr?

Mae'r bacteriwm *Legionella pneumophila* a bacteria cysylltiedig yn gyffredin mewn ffynonellau dŵr naturiol megis afonydd, llynnoedd a chronfeydd, ond fel arfer mewn niferoedd isel. Gan fod bacteria'r lleng filwr yn gyffredin yn yr amgylchedd, gallant hefyd halogi a thyfu mewn systemau dŵr pwrpasol megis tyrau oeri, cyddwysyddion anweddu, systemau dŵr poeth ac oer a sbaon trobwll.

## A oes risg o glefyd y llengfilwyr yn fy ngweithle?

Gallai unrhyw system ddŵr gyda'r cyflyrau amgylcheddol cywir fod yn ffynhonnell twf bacteria clefyd y llengfilwyr. Mae yna risg rhesymol o glefyd y llengfilwyr rhagweladwy yn eich system ddŵr os:

- yw dŵr wedi ei storio neu ailgylchredeg yn rhan o'ch system;
- yw tymheredd y dŵr yn y system i gyd neu ran ohono rhwng 20-45°C;
- oes yna ffynonellau maeth megis rhwd, llaid, cen a deunydd organig;
- yw'r cyflyrau yn debygol o annog bacteria i luosogi;
- yw'n bosibl cynhyrchu diferion dŵr ac, os felly, os gellir eu dosbarthu ar draws ardal eang, e.e. cawodydd ac aerosolau o dyrau oeri; ac
- yw'n debygol fod unrhyw un o'ch cyflogeion, preswylwyr, ymwelwyr ac ati yn fwy agored i heintiad oherwydd oed, salwch, system imiwedd wan ac ati ac a ellir eu hamlygu i unrhyw ddiferion dŵr halogedig.

Mae'r llefydd mwyaf cyffredin ble gellir dod o hyd i glefyd y llengfilwyr yn cynnwys systemau dŵr pwrpasol, tyrrau oeri, cyddwysyddion anweddu, systemau dŵr poeth ac oer a phyllau sbaon. Mae yna hefyd nifer o systemau eraill all gyflwyno risg o amlygiad i glefyd y llengfilwyr, e.e. lleithyddion, golchwyr aer, cawodydd argyfwng, ffynhonnau addurnol dan do ac ati.

## Beth yw fy nyletswyddau?

Dan gyfraith iechyd a diogelwch cyffredinol, fel cyflogwr neu rywun sy'n rheoli eiddo (e.e. landlord), mae gennych **chi** ddyletswyddau iechyd a diogelwch ac mae angen i chi gymryd rhagofalon rhesymol i atal neu reoli'r risg o amlygiad i glefyd y llengfilwyr. Gellir dod o hyd i fanylion y ddeddf benodol sy'n berthnasol yn rhan 1 *Legionnaires' disease: The control of legionella bacteria in water systems*.

Chi sy'n gyfrifol am gyflawni asesiad risg a bydd yn eich helpu i sefydlu unrhyw risgiau posibl a gweithredu mesurau i naill ai ddiddymu neu reoli'r risgiau. Efallai y byddwch yn gymwys i gyflawni'r asesiad eich hun ond, os nad, dylech ofyn i rywun gyda'r sgiliau angenrheidiol i gyflawni asesiad risg. Gall rhywun yn eich sefydliad eich hun neu rywun o'r tu allan wneud hyn, e.e. ymgynghorwr allanol.

## Sut ydw i'n nodi ac asesu ffynonellau risg?

I nodi risgiau yn eich system ddŵr, dylech chi, neu unigolyn cymwys sy'n deall eich systemau dŵr ac unrhyw offer cysylltiedig, sefydlu unrhyw amlygiad posibl i risgiau clefyd y llengfilwyr, fel y'i rhestrwyd uchod, yn rhan o asesiad risg.

Dylai'ch asesiad risg gynnwys:

- cyfrifoldebau rheoli, yn cynnwys enw'r unigolyn cymwys a disgrifiad o'ch system;
- unrhyw ffynonellau risg posibl;
- unrhyw reoliadau sydd ar waith i reoli risgiau ar hyn o bryd;
- gweithdrefnau monitro, archwilio a chynnal a chadw;
- cofnodion canlyniadau monitro, archwiliadau a gwiriadau a gyflawnwyd; a
- dyddiad adolygu.

Os ydych yn penderfynu nad yw'r risgiau'n arwyddocaol a'u bod yn cael eu rheoli'n briodol i gydymffurfio â'r gyfraith, mae'ch asesiad wedi ei gwblhau. Ni fydd rhaid i chi weithredu ymhellach, ond mae'n bwysig adolygu eich asesiad o bryd i'w gilydd rhag ofn bydd unrhyw beth yn newid yn eich system.

## Sut ydw i'n rheoli'r risg?

Fel cyflogwr neu'r sawl sy'n gyfrifol am eich eiddo, rhaid i chi benodi rhywun cymwys i'ch helpu i gydymffurfio â'ch dyletswyddau iechyd a diogelwch, h.y. cymryd cyfrifoldeb dros reoli'r risgiau. Mae unigolyn cymwys yn rhywun sydd â'r sgiliau, gwybodaeth a phrofiad angenrheidiol i reoli iechyd a diogelwch, yn cynnwys y mesurau rheoli. Gallech benodi un, neu gyfuniad o'r canlynol:

- chi'ch hun;
- un gweithiwr neu fwy; ac/neu
- rhywun o'r tu allan i'ch busnes.

Os oes nifer o bobl yn gyfrifol am reoli eich risgiau, e.e. oherwydd patrymau gwaith shifft, efallai y bydd angen i chi sicrhau fod pawb yn gwybod am beth maent yn gyfrifol a sut maent yn rhan o'r rhaglen rheoli risg cyffredinol.

Os byddwch yn penderfynu cyflogi contractwyr i gyflawni gwaith trin dŵr neu arall, yr unigolyn cymwys sy'n dal i fod yn gyfrifol am sicrhau fod y driniaeth wedi ei gyflawni i'r safon ofynnol. Cofiwch, cyn i chi gyflogi contractwr, dylech fod yn fodlon y gallant wneud y gwaith gofynnol i'r safon ofynnol. Mae yna nifer o gynlluniau allanol i'ch helpu gyda hyn, er enghraifft *The control of legionellosis: A recommended code of conduct for service providers*.<sup>2</sup>

## **Sut ydw i'n atal neu reoli'r risg?**

Dylech ystyried a allwch atal y risg o glefyd y llengfilwyr yn llwyr trwy ystyried y math o system ddŵr rydych ei hangen, e.e. ystyriwch a yw'n bosibl amnewid tŵr oeri gwlyb gyda system awyr-oeri sych. Y pwynt allweddol yw cynllunio, cynnal a gweithredu eich gwasanaethau dŵr dan gyflyrau sy'n atal neu'n rheoli twf bacteria clefyd y llengfilwyr yn ddigonol.

Dylech, fel fo'n briodol:

- sicrhau y rheolir rhyddhau chwistrelliad dŵr yn briodol;
- osgoi tymheredd dŵr a chyflyrau sy'n ffafrio twf clefyd y llengfilwyr a micro-organeddau eraill;
- sicrhau nad yw dŵr yn gallu cronni unrhyw le yn y system trwy gadw pibellau mor fyr â phosibl trwy gael gwared ar bibellwaith diangen;
- osgoi deunyddiau sy'n annog twf clefyd y llengfilwyr. Mae'r Water Fittings and Materials Directory<sup>3</sup> yn eich cyfeirio at osodiadau, deunyddiau a nwyddau wedi eu cymeradwyo i'w defnyddio ar System Gyflenwi Dŵr y Deyrnas Unedig gan y Cynllun Cynghori Rheoliadau Dŵr;
- cadwch y system a'r dŵr ynddi yn lân; a
- thrin dŵr naill ai i ladd clefyd y llengfilwyr (a micro-organeddau eraill) neu gyfyngu eu gallu i dyfu.

Os byddwch yn nodi risg na allwch ei atal, rhaid i chi gyflwyno rheoliadau priodol. Dylech gyflwyno cwrs gweithredu fydd yn eich helpu i reoli unrhyw risgiau o glefyd y llengfilwyr trwy nodi:

- eich system, e.e. datblygu sgematig ysgrifenedig;
- pwy sy'n gyfrifol am gyflawni'r asesiad a rheoli ei weithrediad;
- gweithrediad diogel a chywir eich system;
- pa ddulliau rheoli a rhagofalon eraill fyddwch yn eu defnyddio; a
- pa wiriadau fydd yn cael eu cyflawni i sicrhau bod risgiau yn cael eu rheoli a pha mor aml.

## **Pa gofnodion sydd angen i mi gadw?**

Os oes gennych bump neu fwy o gyflogeion, rhaid i chi gofnodi unrhyw gasgliadau arwyddocaol, yn cynnwys unrhyw grwpiau o gyflogeion a nodwyd ganddo fel bod dan risg arbennig a'r camau a gymerwyd i atal neu reoli risgiau.

Os oes gennych lai na phump o gyflogeion, nid oes rhaid i chi ysgrifennu unrhyw beth i lawr, er ei bod yn ddefnyddiol i gadw cofnod ysgrifenedig o beth ydych wedi ei wneud.

Dylai cofnodion gynnwys manylion ynglŷn â:

- yr unigolyn neu bobl sy'n gyfrifol am gyflawni'r asesiad risg, rheoli a gweithredu'r cynllun ysgrifenedig;
- unrhyw gasgliadau arwyddocaol o'r asesiad risg;
- y cynllun rheoli ysgrifenedig a'i weithrediad; a
- canlyniadau unrhyw archwiliad, prawf neu wiriad a gyflawnwyd, a'r dyddiadau.

Dylai hyn gynnwys manylion ynglŷn â chyflwr gweithrediad y system, h.y. mewn defnydd/nid mewn defnydd.

Dylid cadw'r cofnodion hyn trwy gydol y cyfnod pan fyddant yn parhau i fod yn gyfredol, ac am o leiaf dwy flynedd wedi'r cyfnod hwnnw. Dylid cadw cofnodion a gadwyd yn unol â'r pwynt bwled uchod am o leiaf pum mlynedd.

## **A oes gennych unrhyw ddyletswyddau eraill?**

Dan y Rheoliadau Hysbysiad o Dyrrau Oeri a Chyddwysyddion Anweddu 1992,<sup>4</sup> rhaid i chi hysbysu eich awdurdod lleol, trwy lythyr, os oes gennych dŵr oeri neu gyddwysydd anweddu ar y safle a chynnwys manylion ei leoliad. Rhaid i chi hefyd ddweud wrthynt os/pan na fydd dyfeisiadau o'r fath bellach mewn defnydd. Mae ffurflenni hysbysiad ar gael gan eich adran iechyd amgylcheddol lleol.

Os oes gennych achos o glefyd y llengfilwyr mewn cyflogai sydd wedi gweithio ar dyrrau oeri neu systemau dŵr poeth sy'n debygol o fod wedi eu halogi â chlefyd y llengfilwyr, rhaid i chi adrodd ar hyn dan y Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR).<sup>5</sup>

## **Cyfeirnodau**

1 *Legionnaires' disease. The control of legionella bacteria in water systems. Approved Code of Practice and guidance* L8 (Trydydd argraffiad) HSE Books 2001 ISBN 978 0 7176 1772 2 [www.hse.gov.uk/pubns/books/L8.htm](http://www.hse.gov.uk/pubns/books/L8.htm)

2 *The control of legionellosis: A recommended code of conduct for service providers* The British Association of Chemical Specialities and the Water Management Society 2005 [www.legionellacontrol.com/Legionella-Control-Association-Code-of-Conduct-%20Issue-5-07.pdf](http://www.legionellacontrol.com/Legionella-Control-Association-Code-of-Conduct-%20Issue-5-07.pdf)

3 *Water Fittings and Materials Directory* [www.materialstesting.co.uk/materials\\_directory.htm](http://www.materialstesting.co.uk/materials_directory.htm)

4 *The Notification of Cooling Towers and Evaporative Condensers Regulations 1992* SI 1992/2225 TSO 1992 [www.legislation.gov.uk](http://www.legislation.gov.uk)

5 *Reporting accidents and incidents at work: A brief guide to the Reporting of Injuries, Diseases and Dangerous Occurrences Regulations (RIDDOR)* Taflen INDG453 HSE Books 2012 (pecyn pris ISBN 978 0 7176 6460 3) [www.hse.gov.uk/pubns/INDG453.htm](http://www.hse.gov.uk/pubns/INDG453.htm)

# Mwy o wybodaeth

Am wybodaeth ynglŷn ag iechyd a diogelwch, neu i adrodd ar anghysondebau neu wallau yn y canllaw hwn, ewch i [www.hse.gov.uk/](http://www.hse.gov.uk/). Gallwch weld canllaw yr HSE ar-lein ac archebu canllawiau am bris o'r wefan. Mae cyhoeddiadau am bris yr HSE hefyd ar gael o siopau llyfrau.

Mae cyhoeddiadau Y Llyfrfa ar gael gan The Stationery Office, PO Box 29, Norwich NR3 1GN; Ffôn: 0870 600 5522 Ffacs: 0870 600 5533 e-bost: [customer.services@tso.co.uk](mailto:customer.services@tso.co.uk) Gwefan: [www.tsoshop.co.uk/](http://www.tsoshop.co.uk/) (Maent hefyd ar gael o siopau llyfrau.) Gellir gweld offerynnau statudol yn rhad ac am ddim ar [www.legislation.gov.uk/](http://www.legislation.gov.uk/).

**Mae'r daflen hon yn cynnwys nodiadau ar arfer da nad ydynt yn orfodol, ond allai fod yn ddefnyddiol i chi wrth ystyried beth sydd angen i chi ei wneud.**

Mae'r daflen hon ar gael mewn pecynnau wedi eu prisio gan HSE Books, ISBN 978 0 7176 6515 0. Gellir gweld fersiwn y we yn [www.hse.gov.uk/pubns/welsh/indg458.htm](http://www.hse.gov.uk/pubns/welsh/indg458.htm).

©<sup>©</sup> *Hawlfraint y Goron* Os ydych yn dymuno aildefnyddio'r wybodaeth hon, ewch i [www.hse.gov.uk/copyright.htm](http://www.hse.gov.uk/copyright.htm) am fanylion. Cyhoeddwyd gyntaf 04/12.